

Cyngor Cymuned Llandderfel.

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Mehefin 4ydd 2019 yn Neuadd Sarnau. Yn bresennol oedd Rita Jones, Gary Thomas, Gwenda Evans, Eilir Rowlands, Meilir Jones, Alwyn Jones, Iolo Evans a'r clerc.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Gwynedd Jones, Gwenda Morris, Maldwyn Jones, Eifion Davies, Dewi Pritchard a'r Cyng. Elwyn Edwards.

Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.

i) Darllenwyd cofnodion cyfarfod mis Mai a chafwyd yn gywir.

ii) Datgan Buddiant.

Ni chofnodwyd unrhyw fuddiant.

iii) Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.

a) Ymateb Cyngor Gwynedd i'r cwynion o'r cyfarfodydd diwethaf:-

i) Dwr yn dod lawr o bentref Sarnau i'r A494 – roedd yr Arolygwr Priffyrdd wedi cwrdd ar y safle gyda Gary Thomas ac am gymryd y camau priodol i ddatrys y broblem.

iv) Arwydd 'Ffordd ar Gau', Cefnddwysarn - cafwyd cadarnhad mae oherwydd gwaith angenrheidiol gan BT.

b) Cais am loches bws newydd i Lanfor

Yn dilyn y cyfarfod gyda swyddogion yr Asiantaeth Cefnffyrdd cafwyd cadarnhad y byddai posib gosod lloches fach ar y safle. Roedd y clerc wedi gwneud ymholiadau gydag adran cynllunio Cyngor Gwynedd i weld os byddai angen cais cynllunio ond heb glywed yn nol eto. Cytunwyd i drafod y mater ymhellach wedi iddynt ein cynghori.

c) Archwilio asedau'r Cyngor.

Cafwyd cadarnhad fod y llochesi bws ym Methel, Sarnau a Llanfor wedi cael eu harchwilio ac nid oedd angen unrhyw waith. Roedd y clerc wedi cysylltu â Chyngor Gwynedd i ofyn am gyngor am gyflwr wal mynwent Llanfor ond heb glywed yn nol ganddynt eto.

ch) Cyngorydd newydd.

Cafwyd cadarnhad gan y clerc bod yr hysbysiad swyddogol a dderbyniwyd gan Gyngor Gwynedd wedi cael ei arddangos ar y wefan ac yn Neuadd Mynach. Os na fydd gofyn am etholiad ar ddiwedd y cyfnod ymgynghori bydd gan y Cyngor yr hawl i gyfethol aelod newydd.

d) Arian Diffib CFFI Cwm

Roedd y clerc wedi derbyn sicc gan y CFFI a oedd yn cyfateb a'r swm net cost yr offer. Yn unol â phenderfyniad y Cyngor ym mis Mai i gefnogi'r CFFI gyda'r cynllun cytunwyd i dalu am y diffib a'r cabinet.

dd) Pwyllgor Cylch Meithrin Maesywaen

Derbyniwyd cais am gydweithrediad y Cyngor i ail leoli parc chwarae Frongoch er mwyn creu maes parcio mwy fel rhan o'r cynllun i ail leoli'r Cylch Meithrin ar dir Ysgol Bro Tryweryn. Cytunodd Rita Jones ac Eifion Davies fynychu unrhyw cyfarfod posib ac iddynt ddod a'r wybodaeth yn nol i'w drafod ym mis Gorffennaf.

iv) Gohebiaeth.

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

a) Cyngor Gwynedd.

i) Rhaglen Waith yr Adran Priffyrdd ar gyfer mis Mehefin.

b) Triathalon Cymru.

i) Diweddariad ar y trefniadau ar gyfer penwythnos y triathalon.

v) Ceisiadau Cynllunio.

Nid oedd unrhyw geisiadau i'w trafod.

vi) Materion Ariannol.

a) Derbyniadau.

Derbyniwyd ad-daliad TAW.

b) Cytunwyd i dalu'r canlynol:-

Cyngor Gwynedd (rhent cae chwarae Frongoch), Zoll Medical UK (diffib Neuadd Mynach), Pawle & Co (cwpwrdd y diffib).

c) Ffurflen Archwiliad Blynyddol.

Yn dilyn archwiliad trwyadl o gyfrifon y Cyngor, derbyniwyd adroddiad yr archwilwyr ariannol. Yn seiliedig ar y profion a gynhaliwyd mynegwyd eu sicrwydd yn nhrefniadau llywodraethu a datganiadau cyfrifyddu'r Cyngor Cymuned ar gyfer y flwyddyn ariannol 2018-19. Nodwyd fod angen sylw i ddau fan fater. Roedd y Clerc eisoes wedi cysylltu ag Un Llais Cymru i gael arweiniad ynglŷn â pha wybodaeth 'Datgan Buddiant' roedd disgwyl i'r Cyngor arddangos ar eu gwefan gan fod sylwadau'r archwilydd mewnol yn groes i'r cyngor a dderbyniwyd gan Un Llais Cymru yn 2017. Cytunwyd yn unol â gofynion y datganiadau Cyfrifyddu a Llywodraethu yn y ffurflen Archwiliad Blynyddol. Adroddodd y clerc y byddai'n anfon y ffurflen a'r dogfennau perthnasol ymlaen i'r archwilwyr allanol.

vii) Materion lleol.

a) Torri glaswellt ar hyd ochrau'r ffyrdd ac o gwmpas y pentrefi.

i) Gofynnwyd i'r clerc wneud ymholiadau gydag Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd pryd y byddai'r glaswellt yn cael ei dorri. Nodwyd fod y toriadau yn mynd yn hwyrach bob blwyddyn ac roedd y siroedd o'n cwmpas wedi gwneud un toriad yn barod eleni.

**Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar Nos Fawrth,
Gorffennaf 2il yn Neuadd Sarnau am 7.30
y.h.**